Cofnodion **BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR** a gynhaliwyd ar 29 Medi 2016
yn Ystafell y Llys, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Nodiadau	**Gweithredu**
PRESENNOL: Elisabeth Elias, Llywydd (yn y Gadair); Haydn Edwards, Is-Lywydd; Carol Bell, Darpar Is-Lywydd; Carys Howell; Glenda Jones; Kay Andrews, Jessica Seaton; Rachel Hughes; Robert Pickard; Tony Atkins; Victoria Provis; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Steph Mastoris, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a'r Cyfryngau Digidol; Richard Bevins, Cyd-Gyfarwyddwr Gweithredol Casgliadau ac Ymchwil; Diane Gwilt, Cyd-Gyfarwyddwr Gweithredol Casgliadau ac Ymchwil; Judith Ingram, Pennaeth Polisi a Chynllunio; ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa. **HEFYD YN BRESENNOL**: Lesley-Anne Kerr, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.	
Datgan buddiannau: Kay Andrews – Project Creu Hanes Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Carys Howell – Gŵyl Hanes Cymru i Blant.	
1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU 1.1 Croesawyd yr aelodau, a Lesley-Anne Kerr, i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Laurie Pavelin, Trysorydd; Hywel Ceri Jones; Keshav Singhal; a Kate Clark, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.	
Yn Sesiwn Gaeëdig y cyfarfod, bu'r Bwrdd yn trafod recriwtio Ymddiriedolwyr, Cymru Hanesyddol a Chynllunio Ariannol a chawsant eu briffio arnynt. **Wedi hynny, agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Nid oedd yr un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.**	
2 COFNODION 5.1 Penderfynwyd: Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2016 a 04 Awst 2016.	
3 MATERION YN CODI o gofnodion 30 Mehefin 2016 3.1 11.3 Datganiad Eiriolaeth – dosbarthwyd copïau i Ymddiriedolwyr ar 21 Medi 2016.	
4 Y DIWEDDARAF AM BROJECT CREU HANES YN SAIN FFAGAN	

Nodiadau	Gweithredu
4.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol. 4.2 Adroddwyd: Bod y gwaith ailddatblygu yn mynd rhagddo'n dda, gyda gwaith ar y Gweithdy bron â gorffen. Clywodd yr Aelodau am yr oedi i'r Prif Adeilad, a goblygiadau ariannol hynny. Roedd yr Adroddiad Gweithgareddau yn cyfeirio at y gwaith hynod gadarnhaol oedd yn cael ei wneud. Roedd gwaith codi arian hefyd yn bositif dros ben. Roedd yr Amgueddfa yn disgwyl clywed yn ffurfiol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri o ran cais diweddar am arian. 4.3 Nododd yr Aelodau fod Grŵp Comisiynu'r Project wedi canmol y gweithgareddau addysg ffurfiol ac anffurfiol helaeth a chadarnhaol sydd wedi'u cynnal fel rhan o'r Cynllun Gweithgareddau. 4.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny.	
5 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL 5.1 **Briff Chwarterol Chwarter 4; Materion Cyfredol** 5.1.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 5.1.2 Adroddwyd: Bod cynrychiolwyr Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon wedi mwynhau ymweliad llwyddiannus â'r Amgueddfa ym mis Medi. Cafodd partneriaethau cadarnhaol eu meithrin ac roedd ymrwymiad i gydweithio yn y dyfodol. Nododd yr Aelodau gynlluniau i weithio yn Japan a Tsieina yn y dyfodol ac ar y cyd â'r gwledydd hynny. 5.1.3 Cyfeiriodd y Pennaeth Polisi a Chynllunio at uchafbwyntiau'r adroddiad, gan gynnwys y ffigurau ymwelwyr, ymweliadau addysg ffurfiol, ymweliadau â'r wefan a'r cynnydd o gymharu â'r Map Gweledigaeth Fewnol a'r Amcanion Galluogi. 5.1.4 Nododd yr Aelodau fod lefel uchel yr absenoldebau salwch yn sgil y Rhaglenni Arbedion a Diswyddiadau Gwirfoddol. Nodwyd effaith cyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet a chyhoeddi adroddiad PwC, ar staff. Er bod gwasanaethau cymorth ar waith i'r staff, cydnabuwyd bod rhagor o ansicrwydd i ddod. Nododd yr Aelodau'r adroddiadau calonogol o ran defnyddwyr ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol. 5.1.5 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a nodwyd yr adroddiad.	
6 ADRODDIAD ADDYSG BLYNYDDOL 6.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Pennaeth Addysg. 6.2 Adroddwyd: Bod y Pennaeth Addysg wedi nodi mai adroddiad chwe mis oedd hwn, fel bod adroddiadau blynyddol y dyfodol yn cyd-fynd â'r flwyddyn academaidd. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y Projectau Trawsnewidiol, y gwaith eirioli, gweithgareddau digidol a rôl partneriaethau. Mae adroddiad y	

Nodiadau	Gweithredu
Rhaglen Arloesi ar wefan yr Amgueddfa erbyn hyn. 6.3 Diolchodd yr Aelodau i'r staff am eu cyfraniad cadarnhaol a'r partneriaethau llesiant addysg oedd wedi'u sefydlu. Cymeradwywyd y dyhead o droi Sain Ffagan yn ganolfan genedlaethol dysgu Cymraeg, ac mae hyn wedi agor posibiliadau eraill o ran dysgu sgiliau iaith Gymraeg mewn ysgolion. Nododd yr Amgueddfa fod potensial i sefydlu fframwaith unigol ar gyfer dysgu Cymraeg a oedd yn cydymffurfio â'r Fframwaith Ewropeaidd ar ddysgu iaith arall. Nodwyd y potensial i'r Amgueddfa ddatblygu mentrau newydd ar gyfer ysgolion ac addysgu athrawon, yn enwedig o ran cefnogi'r ffyrdd y gallent ystyried diwylliant. 6.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod angen canmol Llywodraeth Cymru am y gwaith rhagorol sydd yn yr adroddiad.	Pennaeth Addysg
7 CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL CAERLLION 7.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan Gadeirydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. 7.2 Adroddwyd: Gan Carys Howell y byddai'n cymryd yr awenau fel Cadeirydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Roedd hi'n falch o ddweud bod 42 y cant o incwm addysg yr Amgueddfa yn deillio o weithgareddau Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru. 7.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a diolchwyd i Laurie Pavelin, Cadeirydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf, am ei waith.	
Gadawodd Richard Bevins y cyfarfod ar y pwynt hwn. **8 CASGLIADAU AC YMCHWIL** 8.1 **Caffaeliadau** 8.1.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Ceidwad Celf. 8.1.2 Adroddwyd: Bod yr Aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am gaffaeliadau diweddaraf. 8.1.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad. 8.2 **Benthyciadau Rhyngwladol** 8.2.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Ceidwad Celf. 8.2.2 Adroddwyd: Bod Ceidwad y Gwasanaethau Casgliadau wedi amlinellu rhaglen yr arddangosfa deithiol o weithiau i Japan. Nododd yr Aelodau y cyfleoedd i greu incwm. 8.2.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y benthyciad yn cael ei gymeradwyo mewn egwyddor, yn amodol ar gymeradwyaeth y Grŵp Cynghori ar Gelf i'r	Ceidwad y Gwasanaethau Casgliadau

Nodiadau	Gweithredu
rhestr o weithiau, a bod y rhestr honno'n cael ei rhannu ar gyfer trafodaeth a chymeradwyaeth y Bwrdd. 8.3 **Dileu o'r Casgliadau** 8.3.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan Geidwad y Gwasanaethau Casgliadau. 8.3.2 Adroddwyd: Gan Geidwad y Gwasanaethau Casglu y byddai dileu llunddelwau crefyddol Durga o'r casgliad, a wnaed yn 2002 ac a dderbyniwyd gan yr Amgueddfa yn 2009, yn galluogi Pwyllgor Puja Cymru i'w defnyddio yn seremoni Durga Puja ddiwedd Hydref 2016. Byddai'r pump llunddelw arall a wnaed yn Sain Ffagan yn 2009 yn cymryd eu lle. Nododd yr Aelodau gyfleoedd i'r Amgueddfa ddathlu'r gyfnewidfa hon â'r WPC. 8.3.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a chymeradwywyd y penderfyniad i'w dileu o'r casgliad, a bod staff i gysylltu â'r ymddiriedolwr Keshav Singhal.	Ceidwad y Gwasanaethau Casgliadau
9 COFNODION DRAFFT GWAHANOL GYFARFODYDD 9.1 Derbyniwyd a Nodwyd: Cofnodion drafft: 9.1.1 Mentrau AOCC 7 Gorffennaf 2016 9.1.2 Pwyllgor Adolygu Perfformiad 14 Gorffennaf 2016 9.1.3 Cydbwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio 14 Gorffennaf 2016 9.1.4 Pwyllgor Archwilio 14 Gorffennaf 2016 9.1.5 Ymddiriedolwyr Pensiynau 13 Gorffennaf 2016 9.1.6 Ymddiriedolwyr Pensiynau 15 Medi 2016 9.1.7 Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru 16 Medi 2016 9.2 Adroddwyd: Yn achos yr Ymddiriedolwyr Pensiynau, bod strategaeth fuddsoddi newydd wedi'i sefydlu ac mae un o dri cham cyntaf y strategaeth ar waith. 9.3 Gan mai Kay Andrews yw Cadeirydd newydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri yng Nghymru, dywedodd y Llywydd ei bod wedi camu o'r neilltu fel aelod o Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan. Cafodd Carol Bell ei henwebu'n aelod newydd o'r Grŵp, ac yn dilyn ymddeoliad Haydn Edwards fel Is-lywydd yr Amgueddfa ddiwedd mis Medi, bydd Laurie Pavelin yn cael ei phenodi fel y Cadeirydd newydd. 9.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod penodiadau Carol Bell a Laurie Pavelin yn cael eu cymeradwyo.	Ysgrifennydd yr Amgueddfa
10 UNRHYW FATER ARALL 10.1 Cofnododd y Llywydd ei diolch, ar ran y Bwrdd, i Haydn Edwards am ei wasanaeth eithriadol i'r Amgueddfa. Diolchodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol i Haydn am ei ymrwymiad i'r Amgueddfa, ac am ei waith ehangach yn y maes	

Nodiadau	**Gweithredu**
addysg a threftadaeth.	
DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF: Penderfynwyd: Y bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9:00 o'r gloch y bore 15 Rhagfyr 2016 yn Ystafell y Llys, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.	